

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

ROBERTS, OWEN OWENS ('O.O. '; 1847 - 1926), ysgolfeistr ac arweinydd cerddorol

Enw: Owen Owens Roberts
Ffugenw: O.o.
Dyddiad geni: 1847
Dyddiad marw: 1926
Rhiant: Owen Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr ac arweinydd cerddorol
Maes gweithgaredd: Addysg; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: John Hughes

Ganwyd 27 Ionawr 1847 yn Nhalsarnau, Sir Feirionnydd. Etifeddodd ei ddawn gerddorol oddi wrth ei dad, Owen Roberts, a oedd yn un o sylfaenwyr gŵyl gerddorol castell Harlech. Apwyntiwyd ' O.O. ' yn brifathro ysgol elfennol Dolgellau yn 1872, ac yn y flwyddyn honno fe sefydlodd Gymdeithas Gorawl Idris. Ar yr un pryd bu'n brif sylfaenydd eisteddfod Meirion, a bu'n ysgrifennydd iddi ar hyd y blynyddoedd. Cyflawnodd wasanaeth mawr fel arweinydd Cymdeithas Gorawl Idris o 1872 hyd 1926, a chryn orchest ydoedd cadw côr o'r fath at ei gilydd am gyfnod mor faith, gan berfformio oratoriau clasur bob blwyddyn yn gyson. Nid rhyfedd, felly, i Brifysgol Cymru gyflwyno iddo y radd M.Mus., 'er anrhydedd,' 1926. Sefydliad arall a gafodd lawer iawn o'i sylw oedd gwyl gerddorol castell Harlech, a bu'n ysgrifennydd iddi am flynyddoedd. Cafodd y fraint o arwain yn y cyngherddau hynny ar fwy nag un achlysur. Yr oedd yn gas ganddo gystadleuaeth, a gwrthododd gystadlu ar hyd ei oes. Priodolai ffyniant maith Cymdeithas Gorawl Idris i'r ffaith na fu'r gymdeithas yn cystadlu o gwbl. Ei ddelfryd ef oedd perfformio'r oratoriau clasur. Yr oedd yn gymeriad hynod wreiddiol, a chlywir hyd heddiw storïau doniol am ei ffraethineb a'i ddull o drin dynion. Bu farw 26 Tachwedd 1926.

Awdur

John Hughes, (1896 - 1968)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804742](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA



Hughes, J., (1953). ROBERTS, OWEN OWENS ('O.O. '; 1847 - 1926), ysgolfeistr ac arweinydd cerddorol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-OWE-1847>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis

Hawlfraint

Y Prosiect

Cymorth

Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government